

## Gair o Gyngor ynghylch Cynilo Arian

Mae'r gair 'gwariant' yn cyfeirio at yr arian ydych chi'n ei wario. Mae'n bwysig chwilio am ffyrdd o wario llai a chynilo mwy. Dyma ychydig o awgrymiadau defnyddiol ynghylch cynilo. Byddant yn help i chi a'ch teulu dorri lawr ar y gwariant.

### O amgylch y tŷ.

- Diffoddwch y goleuadau a'r teclynnau trydan pan nad ydynt yn cael eu defnyddio (peidiwch â gadael y teledu ar y botwm 'parod' (standby).
- Cymerwch gawod yn hytrach na baddon.
- Ailddefnyddiwch ddŵr (e.e. I roi d r i'r ardd).
- Prynwch fylbiau golau a theclynnau sy'n arbed egni.
- Llenwch y tegell at yr hyn sydd ei angen bob tro - bydd yn berwi'n gynt ac yn arbed egni.
- Golchwch eich dillad ar dymheredd is.
- Cadwch y tŷ yn gynnes heb godi'r tymheredd - gosodwch ddeunydd ynysu yn y to, cadwch y ffenestri ar gau a gwisgwch siwmpwr arall yn hytrach na throir botwm gwres i fyny.

### Cludiant

- Meddyliwch am y ffordd rataf o deithio - a fydd yn rhatach mynd yn y car, mynd ar drafnidiaeth gyhoeddus neu hyd yn oed rannu liffi gyda rhywun?
- Ymchwiliwch i'r posibilrwydd o gael tocynnau misol sy'n arbed arian neu rai sy'n rhoi disgownt wrth brynu o flaen llaw.
- Cerddwch neu seiclwch ar deithiau byr.
- Defnyddiwch eich disgownt 'plentyn', 'myfyriwr' neu 'berson ifanc'.

### Ffonau, ffonau symudol a'r we

- Ymchwiliwch i wasanaethau ffôn rhad (e.e. Ceisiwch ddarganfod ydi system 'talu wrth fynd' yn rhatach na chael cytundeb).
- Ydi talu trwy ddebyd uniongyrchol yn rhoi cyfradd ratach.
- Os ydych ar gytundeb, gallwch yn aml drafod bargaen wirioneddol dda wrth adnewyddu eich ffôn, oherwydd dydyn nhw ddim am golli cwsmer a gadael i chi fynd at rwydwaith arall.
- Mae llawer o gwmnïau ffôn yn cynnig telerau 'ffrindiau a theulu'. Bryd hynny, mae'r galwadau i'r rhifau hyn, neu i bobl sydd ar yr un rhwydwaith â chi, yn rhatach.
- Mae galwadau min nos neu benwythnos yn aml yn rhatach.
- Chwiliwch am y bargeinion gorau ar gyfer cael mynediad i'r we, teledu digidol a.y.b. Gall fod yn rhatach ambell waith i gael yr holl systemau cyfathrebu gan yr un cyflenwr - y ffôn, y ffôn symudol a'r we.

### Dillad

- Siopwch mewn marchnadoedd a siopau elusen. Gellir cael hyd i fargen dda, ac yn aml ceir yno ffasiynau diddorol.
- Meddyliwch am werth eich arian - ydi prynu eitemau gyda' labeli neu enwau arbennig arnyn nhw yn werth yr arian ychwanegol?
- Ewch ati i drwsio dillad yn hytrach na phrynu rhai newydd.
- Siopwch yn ystod y sêl - ond cadwch at y pethau sydd ar y sêl!
- Beth am gyfnewid dillad gyda'ch ffrindiau?

## Gair o Gyngor ynghylch Cynilo Arian (parhad)

### Adloniant a Hamdden

- Defnyddiwch gynigion 2 am 1, consesiynau, talebau a chynigion disgownt - gellir chwilio am y rhain ar-lein.
- Gwylwch DVD yn hytrach na mynd i'r sinema - mae'n bosib cael noson dda gartref - gan wneud eich popcorn eich hun hyd yn oed!
- Bydd rhai sinemâu yn cynnig tocynnau rhatach ambell i noson neu yn ystod y dydd.
- Benthycu llyfrau, CDs a DVDs o'r llyfrgell.
- Rhannu CDs a DVDs gyda ffrindiau.
- Wrth brynu tocynnau, cofiwch am ffioedd bwcio' a allai gael eu codi wrth ddefnyddio rhai dulliau talu.
- Chwiliwch am y prisiau gorau (e.e. Mae rhai llyfrau yn rhatach wrth eu prynu dros y we neu o glybiau llyfrau nag mewn siopau ar y stryd fawr - chwiliwch am farchnadoedd ail law ar y we).
- Ymchwiliwch i'r cyfleusterau chwaraeon yn eich canolfan hamdden leol - mae'r mwyafrif o gynghorau yn rhoi cynigion da er mwyn eich helpu i gadw'n ffit.

### Bwyd

- Chwiliwch am y bargeinion gorau wrth siopa bwyd - chwiliwch am y cynigion a'r eitemau gyda phrisiau gostyngol.
- Prynwch eitemau yr archfarchnad ei hun yn hytrach na bwydydd drud cwmnïau eraill.
- Ewch i farchnadoedd bwyd ar ddiwedd y dydd pan fydd y gwerthwyr yn ceisio gwerthu ar brisiau disgownt.
- Ceisiwch osgoi bwyta allan, defnyddio prydau parod neu brydau pecyn (take away) yn rhy aml.
- Ewch â brechdan a.y.b. gyda chi yn hytrach na phrynu cinio bob dydd.
- Wrth siopa am fwyd, cynlluniwch beth sydd ei angen yn ofalus, trwy wneud hynny, byddwch yn osgoi gwastraffu ..... ac yn defnyddio'r hyn sydd dros ben.
- Yfwch ddŵr tap yn hytrach na diodydd potel gydag enwau arbennig arnyn nhw.
- Wrth archebu prydau pecyn (take away) archebwch y 'prydau arbennig' yn unig a choginiwch y rhannau hawdd eich hun (e.e. reis, salad, bara).
- Ewch allan i ginio yn hytrach na phryd min nos - mae'n aml yn rhatach .... Neu'n well fyth, cymerwch eich tro i goginio i ffrindiau.
- Chwiliwch yn y papurau newydd neu ar-lein am dalebau disgownt neu gynigion arbennig mewn tai bwyta.

Mae mwy o syniadau yn y Taflenni Ffeithiau eraill - a fedrwch chi feddwl am rywbeth arall?